O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif. 195 (Cy.39)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (O Gylchfan Pont-y-pŵl, Torfaen i Gylchfan Mamheilad, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

Gwnaed *1 Chwefror 2011*

Yn dod i rym *14 Chwefror 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Casnewydd - Amwythig (yr A4042) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a'i wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Chwefror 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (O Gylchfan Pont-y-pŵl, Torfaen i Gylchfan Mamheilad, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2011

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 22.00 o'r gloch ar 14 Chwefror 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.